dti

LLWYDDIANT YN Y GWEITHLE

Cynyddu'r hawl i gael gwyliau – ymarfer ymgynghori cychwynnol

Y prif bwyntiau o'r Crynodeb o'r ymatebion i'r ymarfer ymgynghori ac ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghori

IONAWR 2007

Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn rhoi'r prif bwyntiau o'r "Crynodeb o'r ymatebion i'r ymarfer ymgynghori ac ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghori" ar gynyddu'r hawl i gael gwyliau. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar yr 22ain o Fedi 2006. Mae'r ddogfen lawn ar gael (yn Saesneg yn unig) ar www.dti.gov.uk/employment/holidays/index.html.

Y broses ymgynghori

2. Yn dilyn trafodaethau anffurfiol gyda chroestoriad o randdeiliaid, lansiwyd yr ymgynghori ar y 13eg o Fehefin 2006, a ategwyd gan ddatganiad i'r wasg a gwefan benodol ar y pwnc hwn. Anfonwyd copïau o'r ddogfen at rhyw 200 o fusnesau ac undebau, ac at rhyw 2,100 o fusnesau bach sydd ar ddata-bas ymgynghori y Gwasanaeth Busnesau Bach. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd agored o ymgynghori, gan gynnwys un yng Abertawe, a chynhaliwyd amrywiol gyfarfodydd eraill yn ogystal i drafod y cynigion yn fwy manwl.

3. Daeth cyfanswm o 344 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgyngori i law. O'r ymatebion hynny, roedd 56% ohonynt oddi wrth fusnesau, 15% oddi wrth gyrff cynrychioli, 13% oddi wrth unigolion, 10% oddi wrth undebau llafur, 4% oddi wrth y sector cyhoeddus a 2% oddi wrth elusennau/mentrau cymdeithasol. O'r busnesau a ymatebodd, roedd 38% ohonynt yn fusnesau bach; 22% yn gwmnïau mawr; 19% yn fentrau meicro; 17% yn fusnesau canolig, ac ni wyddys maint y 4% arall.

Y buddiannau o gynyddu'r hawl i gael gwyliau

4. Roedd yr ymarfer ymgyngori yn gofyn am farn ynglŷn â'r buddiannau tebygol i'r staff o gynyddu'r hawl i gael gwyliau, gyda'r ffurflen ymateb yn awgrymu nifer o opsiynau. Yr ymateb mwyaf poblogaidd oedd y byddai'r gwyliau ychwanegol yn galluogi'r staff i dreulio rhagor o amser gyda'u teulu a'u cyfeillion, ac roedd nifer o'r ymatebwyr yn cyfeirio at yr effaith negyddol ar hyn o bryd o gynnwys gwyliau banc fel rhan o'u hawl i gael pedair wythnos o wyliau blynyddol. Hefyd roedd sawl un o'r ymatebwyr wedi nodi y byddai rhagor o wyliau yn golygu mwy o gymhelliad i'r staff ac yn fudd gwirioneddol iddynt.

Ymateb y Llywodraeth

5. **Mae'r Llywodraeth o'r farn y bydd cynyddu'r hawl i gael gwyliau yn fuddiol iawn i staff drwy eu galluogi i gael gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a threulio mwy o amser gyda chyfeillion a'u teuluoedd. Mae'r Llywodraeth yn nodi bod sawl gwlad arall yn Ewrop eisoes yn manteisio ar nifer tebyg o wyliau statudol, os nad rhagor na'r nifer a gynigir. Hefyd mae'r Llywodraeth yn nodi bod y mwyafrif o gyflogwyr eisoes yn rhoi o leiaf 28 diwrnod o wyliau (pro-rata) i'w staff, gan gydnabod bod gwyliau yn dod â budd i'w busnesau o ran lleihau straen, cynyddu'r cynhyrchiant a chynnal cymhelliad. Bydd yr Asesiad Effaith Reoleiddiol fydd yn dod gyda'r rheoliadau drafft yn ystyried yn fwy manwl y costau a'r buddiannau o gynyddu'r hawl i gael gwyliau.**

Yr effaith ar gyflogwyr

6. Roedd yr ymgynghori yn gofyn i'r ymatebwyr roi eu sylwadau ar yr effaith y byddai'r cynigion yn ei gael ar gyflogwyr, drwy nodi un prif effaith o blith dewis o 6. "Dim effaith" oedd yr ymateb mwyaf cyffredin (hyd yn oed ymhlith cyflogwyr), a'r ail mwyaf cyffredin oedd y gost o recriwtio staff ychwanegol i gyflenwi dros adegau gwyliau. Roedd dadansoddiad mwy manwl o'r sylwadau'n dangos bod costau yn gyffredinol yn fater oedd yn bendant yn peri pryder iddynt (gan gynnwys cyflog ychwanegol a cholli busnes yn ogystal â recriwtio). Hefyd nodwyd yr effaith y mae un newid ar ôl y llall yn y ddeddfwriaeth yn ddiweddar yn ei gael.

7. Roedd nifer o'r ymatebwyr wedi gwneud arolwg ymhlith eu haelodau i asesu'r effaith. Dywedodd y Fforwm Busnesau Preifat bod 53% o'r ymatebwyr i'w harolwg o'u haelodau eisoes yn cynnig o leiaf 28 o ddiwrnodau o wyliau i'w staff. Dywedodd Sefydliad y Cyfarwyddwyr bod 95% o'u haelodau ar hyn o bryd yn rhoi o leiaf 28 diwrnod o wyliau (gan gynnwys gwyliau banc). Roedd Cymdeithas Lletygarwch Prydain yn amcangyfrif bod 62% o staff yn y sector ar hyn o bryd heb fod yn derbyn gwyliau sy'n gyfwerth â 28 diwrnod y flwyddyn. Roedd sawl un o'r sefydliadau sydd eisoes yn cynnig 28 diwrnod o wyliau yn croesawu'r un hawl i wyliau i bawb y byddai'r cynnig hwn yn ei roi, rhwng un cyflogwr a'r llall yn ogystal â rhwng gwahanol grwpiau o staff gyda'r un cyflogwr.

8. Roedd y cwmnïau llai, yn enwedig y mentrau meicro, yn fwy tebygol o gael anawsterau i ddygymod â'r diwrnodau ychwanegol oherwydd anallu i ymgorffori'r costau neu absenoldebau'r staff.

9. Hefyd roedd yr ymgynghori yn gofyn am sylwadau ar yr effaith ar arferion gweithio, a'r ymateb mwyaf cyffredin oedd anhawster i ail drefnu'r rota gwaith. Gofynnwyd i'r Llywodraeth ystyried patrymau gweithio annodweddiadol wrth ddrafftio a gweithredu'r rheoliadau, gan wneud y rheoliadau mor hyblyg â phosibl. Hefyd rhagwelwyd y byddai anhawster i gyfrif hawl staff rhan-amser i gael gwyliau, a chyfrif nifer pro-rata am ran o flwyddyn.

Ymateb y Llywodraeth

10. **Mae'r Llywodraeth yn cydnabod na fydd y mwyafrif llethol o gyflogwyr yn cael eu heffeithio yn uniongyrchol gan y cynigion hyn (gan eu bod eisoes yn rhoi o leiaf 28 diwrnod o wyliau), ond mae'n derbyn bod teimladau cryf ymhlith y busnesau hynny gaiff eu heffeithio ynglŷn â'r costau. Mae'r Llywodraeth yn sylweddoli bod busnesau bach yn mynd i wynebu heriau arbennig o ran cadw staff, a bod rhai sectorau yn debygol o deimlo'r effaith yn llawer mwy nag eraill. Mae'r Llywodraeth yn nodi'r cyd-destun ehangach o'r effaith a gaiff rheoliadau ar fusnesau, ac mae wedi gofyn i'r Comisiwn Tâl Isel gymryd y cynnydd yn yr hawl i gael gwyliau i ystyriaeth wrth argymell lefel yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn y dyfodol.**

Hyblygrwydd o ran rheoli'r gwyliau ychwanegol

11. Cyfarwyddeb Amser Gweithio Ewropeaidd sydd ar hyn o bryd yn pennu'r hawl i gael gwyliau, ac nid yw'r gyfarwyddeb hon yn caniatáu i unrhyw ran o'r pedair wythnos gael ei gario ymlaen i'r flwyddyn wyliau ganlynol, ac ni ellir ychwaith 'brynu'r' gwyliau. Nid oes angen mabwysiadu'r un cyfyngiadau Ewropeaidd o reidrwydd ar gyfer yr hawl ychwanegol i gael gwyliau, ac felly roedd yr ymgynghori yn gofyn am farn ynghylch a ddylid rhoi'r hawl i gario'r gwyliau ychwanegol drosodd i'r flwyddyn ganlynol neu ei 'brynu', ac os rhoddir yr hawl hon, sut ellir trefnu hynny mewn gwirionedd.

12. O'r 272 o ymatebwyr a fynegodd farn, roedd 42% yn cytuno y dylid gallu cario'r gwyliau ychwanegol drosodd i'r flwyddyn ganlynol, a 58% yn anghytuno. Serch hynny, mae'n amlwg o'r sylwadau a wnaed bod nifer uchel o'r ymatebwyr o'r farn bod y cwestiwn yn gofyn eu barn ynglŷn â'r hawl i gario gwyliau drosodd, yn hytrach na'r cyfleuster i wneud hynny. Roedd ymatebwyr eraill yn dweud bod y gallu i gario gwyliau drosodd yn hynod bwysig o ran hyblygrwydd y gwyliau sy'n ychwanegol i'r lleiafswm statudol, ac y byddai peidio â chaniatáu hyn yn cyfyngu ar yr hyblygrwydd y mae cwmnïau ar hyn o bryd yn manteisio arno.

13. O ran 'prynu'r' gwyliau, roedd 271 o ymatebwyr wedi lleisio barn, ac o'r rheiny, roedd 57% o blaid, a 43% yn erbyn. Yr un ddadl a roddwyd o blaid hyn â chario gwyliau drosodd, sef bod rhoi tâl yn lle cymryd gwyliau contract eisoes yn cael ei gynnig, a bod hyn yn ddefnyddiol iawn o ran y gallu i fod yn hyblyg. Ymhlith y dadleuon yn erbyn oedd bod caniatau 'prynu' yn groes i holl amcan y cynigion i wella'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a rhoi mwy o amser i'r staff beidio â bod yn y gweithle. Roedd eraill yn ofni y byddai gweithwyr yn camddefnyddio'r cymhelliad ariannol, naill ai y rhai fyddai'n teimlo bod rhaid iddynt dderbyn tâl yn lle cymryd gwyliau, neu gan gyflogwyr fyddai'n talu am beidio â chymryd y gwyliau ychwanegol yn lle rhoi codiad cyflog.

14. Pan ofynnwyd sut ellid gweithredu'r cyfryw drefniadau mewn gwirionedd, roedd mwyafrif llethol (97%) o blaid cytundeb rhwng y staff a'r cyflogwyr. Roedd rhywfaint o wahaniaeth barn ynglŷn â phwy ddylai gael y gair olaf, gyda busnesau yn awgrymu y dylai'r cyflogwr gael y gair olaf, a'r undebau, yr aelod o staff.

Ymateb y llywodraeth

15. **Mae'r Llywodraeth yn nodi bod y mwyafrif o gyflogwyr ar hyn o bryd yn cynnig i'w staff gario nifer y diwrnodau gwyliau contract sy'n uwch na'r pedair wythnos o hawl statudol drosodd i'r flwyddyn wyliau ganlynol, ac nid ydynt am gyfyngu ar yr hyblygrwydd hwn. Mae'r Llywodraeth felly yn cynnig rhoi'r gallu i gario rhai neu'r cyfan o'r gwyliau ychwanegol drosodd i'r flwyddyn wyliau ganlynol (er na fydd raid i gyflogwyr gynnig i'r staff gario diwrnodau drosodd).**

16. **Mae'r Llywodraeth yn cytuno y gallai cyflogwyr a staff gamddefnyddio'r gallu i roi tâl yn lle cymryd y gwyliau ychwanegol, ac y byddai rhoi'r gallu i 'brynu' gwyliau yn mynd yn gwbl groes i amcanion y cynigion hyn i gynyddu nifer y diwrnodau o wyliau. Felly mae'r Llywodraeth yn cynnig na ddylid caniatau rhoi tâl yn lle cymryd y diwrnodau ychwanegol o wyliau.**

Cyflwyno'r gwyliau ychwanegol fesul cam

17. Gwahoddwyd yr ymatebwyr i wneud sylwadau ar gynigion y Llywodraeth i gyflwyno'r gwyliau ychwanegol yn raddol o'r 1af o Hydref 2007 (gyda'r hawl statudol i wyliau yn codi o 4 wythnos i 4.8 wythnos) ac ar opsiynau amseru pryd i gyflwyno'r gwyliau sy'n weddill wedi hynny.

18. O'r cyfanswm o 344 o'r ymatebion i'r ymgyngori, roedd 210 (61%) wedi gwneud sylwadau ar y cynnig i gyflwyno'r gwyliau ychwanegol yn raddol. Roedd rhai o'r farn bod cyflwyno'r gwyliau ychwanegol o fis Hydref 2007 yn rhy fuan, tra bod eraill o'r farn bod digon o rybudd wedi'i roi mewn maniffestos y Llywodraeth ac 'na ddylid cael rhagor o oedi'. Hefyd roedd rhai o'r farn bod y cynnydd cychwynnol o 4 diwrnod yn ormod, ac y dylid cael sawl newid o un neu ddau ddiwrnod y flwyddyn. Serch hynny, y dewis mwyaf poblogaidd (29%) oedd peidio â chyflwyno'r cynigion yn raddol, ond yn hytrach eu cyflwyno i gyd mewn un rhan. Roedd y ddadl o blaid yn rhanedig rhwng y rhai oedd yn dymuno cyflwyno'r cynnydd gynted ag y bo modd (cyflwyno'r cyfan fis Hydref 2007), a'r rhai oedd o blaid cyflwyno'r cyfan yr un tro i leihau'r newidiadau gweinyddol, ond gorau oll os byddai hynny ar ddyddiad diweddarach.

19. Roedd yr ymgynghoriad yn rhoi 5 opsiwn o ran sut a phryd y gellid cyflwyno'r 0.8 wythnos (4 diwrnod) fyddai'n weddill. Yr opsiynau a'r ymatebion oedd:

Opsiwn	Nifer yr ymatebion
Mewn un rhan, flwyddyn ar ôl y cynnydd i 24 (1 Hydref 2008)	73
Mewn un rhan, 2 flynedd ar ôl y cynnydd i 24 (1 Hydref 2009)	26
Mewn 2 ran gan gynyddu i 26 diwrnod yn 2008 a 28 yn 2009	33
Dylai amseru'r ail gynnydd gael ei adolygu ar ôl i'r cynnydd cyntaf gael ei roi ar waith o 1 Hydref 2007	49
Arall (gan gynnwys awgrymiadau na ddylid cael cynnydd neu na ddylai'r cynnydd gael ei gyflwyno'n raddol o gwbl)	75

20. Gwnaed sylwadau yn ogystal ar y dewis o fis Hydref fel y mis i roi'r trefniadau newydd ar waith (o blaid ac yn erbyn), ac ar yr angen am gael digon o rybudd a chyfarwyddyd sydd wedi cael cyhoeddusrwydd helaeth, waeth ar ba ddyddiad bynnag y cyflwynir y newidiadau. Hefyd roedd cefnogaeth frwd o blaid bod y cyhoeddiad ar amseru cyflwyno'r trefniadau newydd yn cynnwys yr hawl yn llawn; hynny yw, peidio ag aros tan cael adolygiad cyn cyhoeddi dyddiad cyflwyno'r ail ran.

Ymateb y Llywodraeth

21. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod newid yr hawl i gael gwyliau yn mynd i olygu baich gweinyddol ar gyflogwyr, ond o'r farn bod y manteision o gyflwyno'r cynnydd yn yr hawl i gael gwyliau yn raddol (sy'n galluogi cyflogwyr i addasu), yn drech nag unrhyw gostau gweinyddol ychwanegol. Mae'r Llywodraeth yn nodi bod cyfrif yr hawl i gael mwy o wyliau yn fwy dyrys o bosibl os nad yw dyddiad gweithredu'r hawl yn cyfateb â blwyddyn wyliau y cyflogwr. Serch hynny, y flwyddyn wyliau gyfredol yn y Rheoliadau Amser Gweithio yw Hydref-Medi, ac mae'r Llywodraeth o'r farn y dylai'r cynnydd yn yr hawl i gael gwyliau gydweddu â'r misoedd hyn.

22. Mae'r Llywodraeth yn nodi'r gwahanol farn am yr amser y cyflwynir y gwyliau sy'n weddill. Nid yw'r Llywodraeth yn dymuno ychwanegu at y baich gweinyddol ar gyflogwyr drwy gynyddu'r hawl i gael mwy o wyliau fwy na dwywaith, ac mae'r Llywodraeth yn cytuno bod angen digon o rybudd ymlaen llaw. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod y cyflogwyr sydd eisoes yn rhoi 28 diwrnod o wyliau i'w staff yn awyddus i weld pawb yn cael yr un hawl i wyliau ac felly yn cynnig y dylai'r hawl i gael gwyliau gynyddu i 4.8 wythnos o'r 1af o Hydref 2007 ac i 5.6 wythnos o'r 1af o Hydref 2008.

Sylwadau eraill a wnaed

23. Gwnaed amrywiaeth eang o sylwadau eraill a chodwyd nifer o faterion mewn ymateb i'r ymgynghori, ac mae'r manylion yn llawn (gan gynnwys ymateb y Llywodraeth i bob un) yn y ddogfen lawn "Crynodeb o'r ymatebion i'r Ymgynghori ac ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghori" ar gynyddu'r hawl i gael gwyliau. Ymhlith ymatebion eraill a godwyd oedd: yr angen am newid contractau cyflogaeth; ffrwyno'r hawl i gael gwyliau i uchafswm o 28 diwrnod; cadw'r hawl i gael gwahanol nifer o ddiwrnodau o wyliau; baich rheoleiddio ar fusnesau llai; cynnwys y gwyliau ychwanegol wrth gyfrif oriau gwaith; yr effaith ar y lefel o lsafswm Cyflog Cenedlaethol; a staff rhan-amser nad ydynt yn gweithio ar wyliau banc.

© Hawlfraint y Goron. URN 07/514W